**Ffilm Cymru Wales**
**Swydd Ddisgrifiad: Asesydd Llawrydd**

Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer rôl:
**Asesydd Llawrydd**

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi ei darparu i'ch cynorthwyo gyda'ch datganiad o ddiddordeb. Mae rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru i'w chael ar [www.ffilmcymruwales.com](http://www.ffilmcymruwales.com)

## Cynnwys


Croeso ........ 2
Sut i Ddatgan Diddordeb ........ 3
- Cymorth Mynediad ........ 4
- Wedi i chi gyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb ........ 4
- Telerau Ymrwymiad ........ 5

Hysbyseb Swydd ........ 6
- Cyfrifoldebau Allweddol ........ 7
- Sgiliau a Phrofiad ........ 8
- Dymunol ........ 9

Swydd Ddisgrifiad Lawn ........ 10
- Y Rôl ........ 11
- Cyfrifoldebau Allweddol: ........ 12
- Sgiliau & Phrofiad Dymunol ........ 13

Ffilm Cymru Wales ........ 15

# Croeso

Diolch am ddangos diddordeb mewn gweithio gyda Ffilm Cymru. Rydym yn datblygu cronfa o weithwyr llawrydd i gynorthwyo ein tîm i asesu ceisiadau gan wneuthurwyr ffilm sy’n gofyn am gyllid - ar gyfer creu ffilmiau byr, i ddatblygu gyrfa, i greu rhaglenni nodwedd.

Un o'n hamcanion yw ehangu'r ystod o brofiadau bywyd sy'n llywio ein penderfyniadau. Rydym yn annog datganiadau o ddiddordeb yn arbennig gan unigolion sy’n ystyried eu hunain yn fenywod (boed hynny ar enedigaeth ai pheidio), yn LGBTQI+, yn f/Fyddar, yn anabl neu’n niwroamrywiol, yn bobl o’r Mwyafrif Byd-eang, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a’r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.

Rydym yn cydnabod bod croestoriad o nodweddion gwahanol yn bodoli a bod pobl bob amser yn fwy na’r disgrifyddion hyn, ac yn byw bywydau cymhleth ac amrywiol sy’n dylanwadu arnynt. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn ymdrin â hyn yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb.

Bydd y gweithwyr llawrydd a wahoddir i ymuno â’r gronfa hon yn cael cynnig cyfleoedd asesu â thâl yn unol â’u harbenigedd ar gyfer ein Cronfa Ffilmiau Byrion - Beacons, ein Cronfeydd Datblygu a Chynhyrchu Ffilmiau Nodwedd (gan gynnwys Sinema, ein cynllun Iaith Gymraeg), a’n Cronfa Datblygu Gyrfa. Bydd hyn yn digwydd rhwng Awst 2023 a Mawrth 2024, gyda photensial i'r gwaith ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Rydym yn chwilio am unigolion sydd â dealltwriaeth o’r diwydiant ffilm, sy’n frwd dros ddarganfod talent ysgrifennu, cyfarwyddo a chynhyrchu yng Nghymru, ac sydd ag ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gennym ddiddordeb mewn ystod eang o wahanol safbwyntiau a chefndiroedd. Efallai eich bod yn gynhyrchydd ffilm, yn olygydd sgript, yn ymgynghorydd, yn rhaglennydd neu'n guradur profiadol. Neu o bosib, eich bod yn weddol newydd i yrfa mewn datblygu, cynhyrchu, gwerthu, dosbarthu, marchnata neu arddangos. Neu efallai fod gennych brofiad cyfatebol mewn cyfrwng creadigol cysylltiedig fel teledu, y ddelwedd symudol neu'r theatr. Byddwn yn edrych am gydbwysedd o wahanol lefelau o brofiad a chefndiroedd ar gyfer eu cynnwys yn y garfan.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich datganiad o ddiddordeb.
*Kim Warner, Pennaeth Cynhyrchu*

## Sut i Ddatgan Diddordeb

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat arall gyda chi, dylech anfon e-bost at Ihsana Feldwick ar **ihsana@ffilmcymruwales.com** gan ddefnyddio ‘Asesydd Llawrydd – Datganiad Diddordeb’ yn y llinell bwnc, a chan gynnwys y canlynol:

1. CV neu ddolen i CV ar-lein
2. Nodyn yn egluro pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl a sut rydych yn bodloni'r meini prawf (naill ai nodyn ysgrifenedig heb ddefnyddio mwy na 300 gair, neu nodyn llais neu fideo sydd ddim hirach na 2 funud.)
3. Pa rai o'r ceisiadau canlynol yr ydych ar gael i'w hasesu:

   - Ffilmiau byr (Awst 2023 yn unig)

   - Datblygu a/neu gynhyrchu ffilmiau nodwedd (gydol y flwyddyn)

- Datblygu gyrfa (gydol y flwyddyn)

Yn ogystal â'r uchod, rhowch wybod i ni os ydych yn gallu asesu ceisiadau gwneuthurwyr ffilm yn y Gymraeg.

Cyflwynwch eich datganiad o ddiddordeb erbyn **canol dydd, dydd Llun 31 Gorffennaf 2023.**

**Cymorth Mynediad**
Rydym yn credu mewn sector sy'n gweithio i bawb ac yn teimlo'n angerddol dros ehangu mynediad i'r sector sgrîn.

Byddwn yn cynnig cyfarfod awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni Isafswm ein Meini Prawf ar gyfer y rôl ac sy'n nodi eu bod yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu'n perthyn i Leiafrifoedd Ethnig, neu'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.

Ar gyfer ymgeiswyr sydd ag anghenion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn anabl, yn niwroamrywiol, neu sydd â nam ar eu golwg, mae cymorth ar gael i gwblhau eich datganiad o ddiddordeb. Cysylltwch â ni er mwyn rhoi gwybod i ni sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu costau dehonglydd BSL ar gyfer cynnal cyfarfod cyn i chi wneud datganiad o ddiddordeb, neu gallwn gynnig cymorth ysgrifennu ar gyfer ymgeiswyr dyslecsig. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch ag Ihsana Feldwick ar **ihsana@ffilmcymruwales.com** i drafod eich anghenion cyn cyflwyno eich datganiad o ddiddordeb.

**Wedi i chi gyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb**
Byddwch yn derbyn cadarnhad bod eich datganiad o ddiddordeb wedi'i dderbyn o fewn wythnos o'i gyflwyno, a

byddwch yn cael dolen at ffurflen monitro amrywiaeth, sy'n ein helpu yn ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant. Mae gan bob cwestiwn opsiwn gwell gen i beidio â dweud. I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, cyfeiriwch at ein Polisi Preifatrwydd.

Bydd datganiadau o ddiddordeb yn cael eu hadolygu yn unol â'r meini prawf a restrir yn yr Hysbyseb Swydd. Byddwn hefyd yn ystyried yn ofalus ehangder y profiad bywyd a'r lefelau profiad sy'n cael eu cynrychioli yn ein cronfa aseswyr llawrydd.

Ni fyddwn yn cynnal cyfweliadau ffurfiol ar gyfer y rôl hon. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael cyfarfod anffurfiol gydag ymgeiswyr, neu efallai bydd angen rhagor o wybodaeth arnom neu gynnal asesiad prawf. Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd erbyn dydd Iau 31 Awst 2023 a ydynt wedi cael eu gwahodd i ymuno â'n cronfa gweithwyr llawrydd.

**Telerau Ymrwymiad**

Os cewch eich gwahodd i ymuno â'n cronfa gweithwyr llawrydd, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn ag asesu'r cyfleoedd sy'n berthnasol i'ch gwybodaeth, eich sgiliau a'ch profiad.

Os gofynnir i chi ymgymryd â gwaith asesu, bydd cytundeb ymgynghori ar gyfer eich gwasanaethau gyda Ffilm Cymru Wales.

Cynigir ffioedd fesul cais a byddant yn amrywio yn ôl y gronfa yn ogystal â lefel yr arbenigedd a'r ymrwymiad amser sydd ei angen. Rydym yn adolygu ffioedd o bryd i'w gilydd yn unol â chyfraddau safonol y diwydiant.

Enghreifftiau o'n cyfraddau presennol yw:

- Ar gyfer ffilmiau byr, £15-30 y cais (yn dibynnu ai ar y cam darllen cychwynnol neu ar gam llunio'r rhestr fer)
- Ar gyfer datblygu ffilm nodwedd, £80 y cais
- Ar gyfer cynhyrchu ffilm nodwedd, hyd at £250 y cais (mae lefel manylder y cais a'r arbenigedd a ofynnir amdano ar ei uchaf ar gyfer ceisiadau cynhyrchu ffilm nodwedd)

Gall cyfraddau amrywio yn dibynnu ar yr union ddeunyddiau y gofynnir i aseswyr eu hadolygu. Mae'r holl ffioedd yn cynnwys unrhyw TAW perthnasol.

Sylwch nad yw cael eich gwahodd i ymuno â'n cronfa gweithwyr llawrydd yn warant o waith cyflogedig.

## Hysbyseb Swydd

**Teitl:** Asesydd Llawrydd
**Cyfnod:** Awst 2023 i Mawrth 2024, gyda phosibilrwydd o ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod yma.
**Ffî:** Amrywiol, yn unol â chyfraddau safonol y diwydiant, ar sail ceisiadau unigol. Mae enghreifftiau o'n cyfraddau presennol rhwng £15-30 ar gyfer ffilmiau byr, £80 ar gyfer datblygu ffilm nodwedd a hyd at £250 ar gyfer cynhyrchu ffilm nodwedd – gan gynnwys unrhyw TAW perthnasol.
**Dyddiad cau:** Canol dydd, dydd Llun 31ain Gorffennaf 2023.
**Cyfweliadau:** Ni fyddwn yn cynnal cyfweliadau ffurfiol ar gyfer y rôl hon. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael cyfarfod yn anffurfiol ag ymgeiswyr, neu

efallai bydd angen gwybodaeth bellach arnom neu asesiad prawf.

Mae Ffilm Cymru yn datblygu cronfa o weithwyr llawrydd i gynorthwyo ein tîm i asesu ceisiadau gan wneuthurwyr ffilm sy’n gofyn am gyllid - ar gyfer creu ffilmiau byr, i ddatblygu gyrfa, i raglenni nodwedd.

Un o'n hamcanion yw ehangu'r ystod o brofiadau bywyd sy'n llywio ein penderfyniadau. Rydym yn annog datganiadau o ddiddordeb yn arbennig gan unigolion sy’n ystyried eu hunain yn fenywod (boed hynny ar enedigaeth ai pheidio), yn LGBTQI+, yn f/Fyddar, yn anabl neu’n niwroamrywiol, yn bobl o’r Mwyafrif Byd-eang, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a’r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.

Rydym yn cydnabod bod croestoriad o nodweddion gwahanol yn bodoli a bod pobl bob amser yn fwy na’r disgrifyddion hyn, ac yn byw bywydau cymhleth ac amrywiol sy’n dylanwadu arnynt. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn ymdrin â hyn yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb.

Bydd gweithwyr llawrydd a wahoddir i ymuno â’r gronfa hon yn cael cynnig cyfleoedd asesu â thâl yn unol â’u harbenigedd ar gyfer ein Cronfa Ffilmiau Byrion - Beacons, ein Cronfeydd Datblygu a Chynhyrchu Ffilmiau Nodwedd (gan gynnwys Sinema, ein cynllun Iaith Gymraeg), a’n Cronfa Datblygu Gyrfa. Bydd hyn yn digwydd rhwng Awst 2023 a Mawrth 2024, gyda photensial i'r gwaith ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

## Cyfrifoldebau Allweddol

Yn dibynnu ar y gronfa, efallai y gofynnir i aseswyr llawrydd adolygu unrhyw gyfuniad o’r deunyddiau canlynol:

- Ffurflenni cais wedi'u cwblhau mewn fformat ysgrifenedig, nodyn llais neu fideo
- Amlinelliadau, triniaethau, sgriptiau
- Deunydd gwreiddiol pan fo’r prosiect yn addasiad (e.e. nofel neu ddrama)
- Deciau pitsh, byrddau syniadau, brasluniau, byrddau stori, riliau, darn o ffilm brawf  (test footage)
- Gwaith sgrîn blaenorol
- CVs / bywgraffiadau
- Cyllidebau
- Cynlluniau ariannu

Darperir meini prawf asesu penodol a chanllawiau pellach. Er enghraifft, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgyfarwyddo â pholisïau Ffilm Cymru.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ysgrifennu nodiadau byr neu sgorio pob cais. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi ymuno â thrafodaeth fanylach am y ceisiadau fel rhan o banel.

Bydd y paneli asesu bob amser yn cynnwys aelodau o dîm Ffilm Cymru. Lle mae gennym nifer fawr o geisiadau, efallai y bydd mwy nag un gweithiwr llawrydd allanol ar y panel hefyd.

## Sgiliau a Phrofiad

- Profiad blaenorol mewn ffilm neu mewn cyfrwng creadigol cysylltiedig
- Y gallu i ymgysylltu'n feirniadol â phrosiectau ffilm ar wahanol gamau datblygu, yn greadigol ac o ran eu dichonoldeb (cyllideb, amserlen, tîm) yn ogystal â'r potensial ar gyfer gwyliau a/neu ddosbarthiad theatrig

- Ymwybyddiaeth o lwybrau datblygu talent o fewn y diwydiant ffilm
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Dymunol**

Arbenigedd mewn unrhyw un o'r canlynol: rhaglenni dogfen, gwaith wedi ei animeiddio, ffilmiau Cymraeg, cynhyrchydd arweiniol ar ffilmiau byrion neu ffilmiau nodwedd, gwerthu a dosbarthu neu ddatblygu talent ffilm.

Byddwn yn cynnig cyfarfod awtomatig i'r holl ymgeiswyr sy'n bodloni Isafswm ein Meini Prawf ar gyfer y rôl ac sy'n nodi eu bod yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu'n perthyn i Leiafrifoedd Ethnig, neu'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.

For applicants with access requirements, for example individuals who are D/deaf, hard-of-hearing, Disabled, neurodiverse, and people with sight loss, support is available. Please contact Ihsana@ffilmcymruwales.com.

# Swydd Ddisgrifiad Lawn

| | |
|---|---|
| **Adran:** | Datblygu, Cynhyrchu & Sgiliau |
| **Swyddogaeth:** | Asesydd Llawrydd |
| **Cyfnod:** | Awst 2023 i Mawrth 2024, gyda phosibilrwydd o ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod yma |
| **Adrodd i:** | Rheolwr RHWYDWAITH y BFI Cymru |
| **Lleoliad:** | Gweithio o bell, gyda'r posibilrwydd o gael gwahoddiad i fynychu asesiadau personol a gynhelir yng Nghaerdydd (gyda threuliau wedi'u talu'n llawn) |
| **Ffioedd:** | Cynigir ffioedd fesul cais a byddant yn amrywio yn ôl y gronfa yn ogystal â lefel yr arbenigedd a'r ymrwymiad sydd ei angen o ran amser. Rydym yn adolygu ffioedd o bryd i'w gilydd yn unol â chyfraddau safonol y diwydiant. Mae enghreifftiau o'n cyfraddau presennol rhwng £15-30 ar gyfer ffilmiau byr, £80 ar gyfer datblygu ffilm nodwedd a hyd at £250 ar gyfer cynhyrchu ffilm nodwedd – gan gynnwys unrhyw TAW perthnasol. |

**Datganiadau o Ddiddordeb:**

Oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat arall gyda chi, dylech anfon e-bost at **ihsana@ffilmcymruwales.com** gyda CV a nodyn yn amlinellu pam fod gennych ddiddordeb yn y rôl, sut rydych yn bodloni'r meini prawf a amlinellir yn y fanyleb hon, a'ch argaeledd.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau:** | Canol dydd, dydd Llun 31ain Gorffennaf. |
| **Cyfweliadau:** | Ni fyddwn yn cynnal cyfweliadau ffurfiol ar gyfer y rôl hon. Fodd bynnag, efallai y byddwn yn gofyn am gael cyfarfod yn anffurfiol ag |

ymgeiswyr, neu efallai bydd angen gwybodaeth bellach arnom neu asesiad prawf.

**Y Rôl**

Rydym yn chwilio am unigolion sydd â dealltwriaeth o’r diwydiant ffilm, sy’n frwd dros ddarganfod talent ysgrifennu, cyfarwyddo a chynhyrchu yng Nghymru, ac sydd ag ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Un o'n hamcanion yw ehangu'r ystod o brofiadau bywyd sy'n llywio ein penderfyniadau. Rydym yn annog datganiadau o ddiddordeb yn arbennig gan unigolion sy’n ystyried eu hunain yn fenywod (boed hynny ar enedigaeth ai pheidio), yn LGBTQI+, yn f/Fyddar, yn anabl neu’n niwroamrywiol, yn bobl o’r Mwyafrif Byd-eang, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg a’r rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol difreintiedig.

Rydym yn cydnabod bod croestoriad o nodweddion gwahanol yn bodoli a bod pobl bob amser yn fwy na’r disgrifyddion hyn, ac yn byw bywydau cymhleth ac amrywiol sy’n dylanwadu arnynt. Ceir rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn ymdrin â hyn yn ein Cynllun Gweithredu Ffilm i Bawb.

Mae gennym ddiddordeb mewn ystod eang o wahanol safbwyntiau a chefndiroedd. Efallai eich bod yn gynhyrchydd ffilm, yn olygydd sgript, yn ymgynghorydd, yn rhaglennydd neu'n guradur profiadol. Neu o bosib, eich bod yn weddol newydd i yrfa mewn datblygu, cynhyrchu, gwerthu, dosbarthu, marchnata neu arddangos. Neu efallai fod gennych brofiad cyfatebol mewn cyfrwng creadigol cysylltiedig fel teledu, y ddelwedd symudol neu’r theatr. Byddwn yn edrych am gydbwysedd o wahanol lefelau profiad a chefndiroedd ar gyfer y garfan.

**Cyfrifoldebau Allweddol:**
Yn dibynnu ar y gronfa, efallai y gofynnir i aseswyr llawrydd adolygu unrhyw gyfuniad o’r deunyddiau canlynol:

- Ffurflenni cais wedi'u cwblhau mewn fformat ysgrifenedig, nodyn llais neu fideo
- Amlinelliadau, triniaethau, sgriptiau
- Deunydd gwreiddiol pan fo’r prosiect yn addasiad (e.e. nofel neu ddrama)
- Deciau pitsh, byrddau syniadau, brasluniau, byrddau stori, riliau, darnau o ffilm prawf (test footage)
- Gwaith sgrîn blaenorol
- CVs / bywgraffiadau
- Cyllidebau

Darperir meini prawf asesu penodol ac arweiniad pellach. Er enghraifft, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i aseswyr ymgyfarwyddo â pholisïau Ffilm Cymru.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi am ysgrifennu nodiadau byr neu sgorio pob cais. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi ymuno â thrafodaeth fanylach am y ceisiadau fel rhan o banel.

Bydd y paneli asesu bob amser yn cynnwys aelodau o dîm Ffilm Cymru. Lle mae gennym nifer fawr o geisiadau, efallai y bydd mwy nag un gweithiwr llawrydd allanol ar y panel hefyd.

**Isafswm Gofynion ar gyfer y Rôl**

- Profiad blaenorol mewn ffilm neu gyfrwng creadigol cysylltiedig

- Y gallu i ymgysylltu'n feirniadol â phrosiectau ffilm ar wahanol gamau o'u datblygiad, yn greadigol ac o ran eu dichonoldeb (cyllideb, amserlen, tîm) yn ogystal â'r potensial ar gyfer gwyliau a/neu ddosbarthiad theatrig.
- Ymwybyddiaeth o lwybrau datblygu talent o fewn y diwydiant ffilm
- Ymrwymiad I gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rhaid I ymgeiswyr fod dros 18 oed ond nid oes angen iddynt fod wedi'u geni, wedi'u lleoli nac yn gweithio yng Nghymru ar hyn o bryd.

Nid yw Ffilm Cymru yn noddwr trwyddedig ar gyfer VISAs ac felly mae'n rhaid bod gennych eisoes yr Hawl I Weithio yn y DU er mwyn ymgymryd â'r rôl hon.

Oherwydd gwrthdaro buddiannau posibl, ni allwn weithio gydag aseswyr llawrydd sydd:

- yn aelod presennol o staff neu fwrdd Ffilm Cymru Wales, Cyngor Celfyddydau Cymru neu'r BFI
- bod â rôl arweiniol ar ddyfarniad gweithredol gan Ffilm Cymru Wales mewn unrhyw un o'r cronfeydd ffilmiau y byddant yn eu hasesu, NEU yn bwriadu gwneud cais i unrhyw un o'r cronfeydd hyn rhwng Awst 2023 a Mawrth 2024

Bydd yn ofynnol i aseswyr ddatgan gwrthdaro buddiannau cyn ymgymryd ag unrhyw waith asesu.

**Sgiliau & Phrofiad Dymunol**

- Gwybodaeth benodol am raglenni dogfen
- Gwybodaeth benodol am waith wedi ei animeiddio

- Y gallu i ymwneud â gwaith creadigol yn yr iaith Gymraeg
- Profiad o arwain ar gynhyrchu ffilm fer neu ffilm nodwedd
- Profiad mewn gwerthu neu ddosbarthu
- Profiad o ddatblygu talent ffilm

**Telerau Ymrwymiad**
Os cewch eich gwahodd i ymuno â’n cronfa gweithwyr llawrydd, byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn ag asesu cyfleoedd sy’n ymwneud â’ch gwybodaeth, eich sgiliau a’ch profiad.

Os gofynnir i chi wneud gwaith asesu, bydd cytundeb ymgynghori ar gyfer eich gwasanaethau gyda Ffilm Cymru Wales.

Cynigir ffioedd fesul cais a byddant yn amrywio yn ôl y gronfa yn ogystal â lefel yr arbenigedd a'r ymrwymiad sydd ei angen o ran amser. Rydym yn adolygu ffioedd o bryd i'w gilydd yn unol â chyfraddau safonol y diwydiant.

Enghreifftiau o’n cyfraddau presennol yw:
- Ar gyfer ffilmiau byr, £15-30 y cais (yn dibynnu ai ar y cam darllen cychwynnol neu ar gam llunio’r rhestr fer)
- Ar gyfer datblygu ffilm nodwedd, £80 y cais
- Ar gyfer cynhyrchu ffilm nodwedd, hyd at £250 y cais (mae lefel manylder y cais a'r arbenigedd a ofynnir amdano ar ei uchaf ar gyfer ceisiadau cynhyrchu ffilm nodwedd)

Sylwch nad yw cael eich gwahodd i ymuno â'n cronfa gweithwyr llawrydd yn warant o waith cyflogedig.

# Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilm o Gymru ac mae wedi ymroi i hyrwyddo sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch ohono. Rydym yn gwneud hyn drwy:

- Weithio gyda phartneriaid i hybu ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Greu amgylchedd ar gyfer profi, integreiddio a rhannu ffyrdd mwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd o weithio
- Gynnwys pobl o bob oed a gallu mewn dysgu creadigol
- Ddatblygu gweithlu sgrîn y dyfodol trwy amrywiaeth o raglenni hyfforddi
- Fuddsoddi mewn ffilmiau anghyffredin sy'n cymryd risg, a'r bobl sy'n eu gwneud, o gyfnod cynnar
- Gynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ledled Cymru

Rydym yn rheoli cyllid y Loteri Genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chyllid gan Lywodraeth Cymru drwy Cymru Greadigol. Mae ein gwaith yn cyd-fynd yn agos â Rhaglen Llywodraeth Cymru, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, oherwydd cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol ein sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 lansiwyd ein Cynllun Strategol 2018 -2024, y gellir ei ddarllen yma.